OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2022 Rhif 1215 (Cy. 252)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU
BWYD, CYMRU

Rheoliadau Cyd-drefniadaeth y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygio) (Cymru) 2022

Gwnaed - - - -	*21 Tachwedd 2022*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -	*23 Tachwedd 2022*
Yn dod i rym - -	*14 Rhagfyr 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50(3) a 53(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

(**1**) 2020 p. 21.
(**2**) EUR 2002/178, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.